

# **Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr** ar Ysgol Gynradd Gladstone

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2022

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae Ysgol Gynradd Gladstone yn ysgol ofalgar a chynhwysol sy'n annog disgyblion i ddysgu mewn amgylchedd cadarnhaol a bod yn hapus. Mae disgyblion yn mwynhau'r gweithgareddau a'r tasgau sy'n cael eu darparu ac yn defnyddio ystod eang o strategaethau ac adnoddau i ddysgu'n effeithiol. Mae parodrwydd disgyblion i ddysgu yn ystod gwersi yn dda ac mae hyn oherwydd y berthynas waith fwriadus â'u athrawon ac aelodau staff eraill.







Er bod gwaith adnewyddu helaeth ar yr adeilad yn cyfyngu ar ddefnyddio'r awyr agored, mae'r staff yn cynnig cyfleoedd dysgu buddiol y tu mewn a'r tu allan. Lle mae dysgu yn arbennig o lwyddiannus, mae'r addysgu'n ddifyr a phwrpasol ac mae gan staff ddisgwyliadau uchel o ddisgyblion. Fodd bynnag, mae ansawdd yr addysgu ac effaith adborth athrawon ar y camau nesaf yn nysgu'r disgyblion yn anghyson ar draws yr ysgol.

Mae'r holl staff yn cynnig lefel uchel o gymorth a gofal i ddisgyblion ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol. Mae hyn yn annog disgyblion i fod yn gyfrifol am eu dysgu a'u lles eu hunain. Mae ymddygiad disgyblion yn dda iawn ac maent yn benderfynol o ddyfalbarhau a dysgu'n llwyddiannus. O ganlyniad, maent yn datblygu medrau llythrennedd a digidol cryf ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw eu gallu i gymhwyso medrau rhifedd mewn sefyllfaoedd go iawn wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth effeithiol a bwriadus. Mae'n benderfynol o lwyddo er lles disgyblion a'r gymuned. Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth, staff a'r llywodraethwyr yn rhannu gweledigaeth glir. Maent yn cydweithio'n dda â'i gilydd i sicrhau bod yr ysgol yn gymuned ddysgu gynhwysol sy'n hyrwyddo cyfleoedd cadarnhaol i ddisgyblion.

Mae'r pennaeth yn rhannu cyfrifoldebau'n effeithiol ymhlith y staff. Mae hyn yn creu ffocws ysgol-gyfan cadarnhaol lle mae disgyblion yn teimlo y cânt eu gwerthfawrogi am eu cyfraniadau i fywyd yr ysgol. Mae arweinwyr yn gwerthuso gwaith yr ysgol i gynllunio ar gyfer gwelliannau'n drylwyr, gan ddefnyddio prosesau hunanwerthuso cadarn. Mae'r arferion monitro hyn yn arwain at hyfforddiant gwerthchweil i staff i ddatblygu eu medrau trwy gyfleoedd dysgu proffesiynol effeithiol.

# Argymhellion

**A1 Sicrhau bod athrawon yn defnyddio amser dysgu yn effeithiol, ym mhob dosbarth, er mwyn herio disgyblion a chefnogi eu cynnydd**

**A2 Sicrhau bod athrawon yn gwella darpariaeth i ddatblygu medrau rhifedd disgyblion**

**A3 Sicrhau bod ansawdd adborth athrawon yn targedu’r camau nesaf yn nysgu disgyblion yn gyson ar draws yr ysgol**

# Beth sy’n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Gladstone |
| Awdurdod lleol | Cyngor Caerdydd |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Ddim yn berthnasol |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 220 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 150 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 47 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.0%) | 30.2% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 16.1%) | 7.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 0.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 61.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2018 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 24/04/2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 21/11/2022 |
| Mae'r ysgol ar ganol gwaith adfer helaeth i adeilad yr ysgol, sy'n cyfyngu'n sylweddol ar ddefnyddio ardaloedd awyr agored yr ysgol. | |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 27/01/2023

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.